

Eich cyf / Your
ref:
Fy nghyf / My ref:
Dyddiad / Date:
14/10/2026

Gofynner am / Please ask for: Tim RhMY
Llinell Uniongyrchol / Direct Line:
E-bost / E-mail:
RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Annwyl Rhanddeiliad,

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir
Y Cynnig i gau Ysgol Y Fro**

Ar 14 Hydref 2026, gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin benderfynu cymeradwyo'r cynnig canlynol:

I gau Ysgol Y Fro o'r 31 Rhagfyr 2026, trosglwyddo disgyblion i Ysgol Y Dderwen ac ail-ddynodi a chynnwys dalgylch Ysgol Y Fro o fewn dalgylch bresennol Ysgol Gynradd Llangynnwr, Ysgol Gynradd WRh Llanddarog, Ysgol Gynradd WRh Glanyfferi, Ysgol Gynradd Gwynfryn, Ysgol Gymraeg Gwenllian, Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ac Ysgol Y Castell o'r 1 Ionawr 2027.

Gwrthwynebiadau i'r cynnig - Derbyniwyd 22 o wrthwynebiadau.

Wrth ddod i'w benderfyniad, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac wedi ystyried y ffactorau perthnasol a nodir ynddo. Nododd y Cyngor bod 22 gwrthwynebiad wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod gwrthwynebiad statudol.

Ystyriodd y Cyngor yn ofalus gynnwys y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb yr Awdurdod Lleol fel y'i nodir yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau a gyhoeddwyd. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y materion a godwyd yn y gwrthwynebiadau wedi cael sylw priodol ac nad ydynt yn gorbwyso manteision y cynnig.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer y cynnig uchod ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin trwy ddilyn y ddolen isod:

[Adroddiad Gwrthwynebu](#)

Ystyried Ffactorau o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i'r ffactorau a nodir ym mharagraffau 1.3 i 1.6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys yn benodol y canlynol:

Ansawdd a safonau mewn addysg

Barn yr Awdurdod Lleol yw y byddai Ysgol Y Dderwen yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o ansawdd o leiaf yn gyfatebol i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Y Fro, felly ni ragwelir y bydd gweithredu'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol. Ymatebodd Estyn fod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysgol a'r safonau ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor Sir wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol. Nodwyd bod nifer o leoedd gwag yn Ysgol Y Fro oherwydd nifer isel o ddisgyblion. Mae yna ddigon o leoedd yn Ysgol Y Dderwen ar gyfer y disgyblion presennol a'r disgyblion a ragwelir.

Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw ddisgyblion wedi'u cofrestru yn Ysgol Y Fro ar hyn o bryd a bod pob disgybl a oedd wedi'i gofrestru'n flaenorol yn Ysgol Y Fro wedi trosglwyddo i ysgolion lleol eraill. O ganlyniad, ni fydd gweithredu'r cynnig i derfynu'r ysgol yn golygu bod angen trosglwyddo unrhyw ddisgyblion presennol ac ni fydd yn arwain at darfu uniongyrchol ar addysg dysgwyr. Mae'r Awdurdod wedi ystyried y ffactor hwn wrth ddod i'w benderfyniad.

Adnoddau addysg

Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae nifer o faterion wedi cael eu hystyried ac, yn benodol y nifer isel o ddisgyblion a rhagolygon, y diffyg ariannol a chyfran uchel y gyllideb fesul disgybl.

Effaith ar y Gymraeg

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i baragraff 1.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys y gofyniad i ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'i aliniad â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod (CSCA).

Mae'r Cyngor Sir yn nodi bod pob disgybl a oedd yn arfer mynychu Ysgol Y Fro wedi trosglwyddo i ysgolion amgen cyn penderfynu ar y cynnig hwn a bod mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael drwy ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwy ffrwd yn yr ardal leol. Mae'r Cyngor yn fodlon y bydd dysgwyr yn parhau i gael mynediad at lwybrau addysgol cyfrwng Cymraeg priodol a chyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, daw'r Cyngor i'r casgliad na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd plant a phobl ifanc i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau'n hygyrch, ac nid yw'r cynnig yn lleihau'n sylweddol allu'r Awdurdod i gyflawni amcanion ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

O ganlyniad, mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yn gyson â hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn barhaus ac yn cefnogi uchelgeisiau ehangach Cymraeg 2050 drwy gynnal cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae ail argraffiad y Cod (2018) yn gwneud trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig drwy sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddangos achos cryf dros gau, wedi'i ategu gan asesiad trylwyr o'r holl ddewisiadau amgen hyfyw.

Mae Ysgol Y Fro wedi cael ei ddynodi yn ysgol wledig sy'n golygu ei fod yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddilyn cyfres fwy manwl o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig.

Ystyrir mai gweithredu'r cynnig i beidio â chynnal Ysgol Y Fro yw'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r rhesymau a nodwyd wrth lunio'r cynnig oherwydd y ffactorau canlynol:

- Mae yna nifer sylweddol o leoedd gwag yn Ysgol Y Fro oherwydd y cwymp yn y nifer o ddisgyblion dros sawl blwyddyn a dim ond 15 disgybl oedd ar y gofrestr ar adeg cynnal cyfrifiad ysgolion mis Ionawr 2026. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y nifer hwn wedi gostwng i sero o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Medi 2026.
- Mae rhagolygon nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel ar gyfer yr ysgol.
- Mae'r ysgol mewn diffyg ariannol.
- Cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yw £11,326. Mae hyn yn £5,357 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Gaerfyrddin o £5,969 ar gyfer 2026/27.
- Cefnogi Egwyddorion Ôl Troed Addysg Gynradd Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Penderfyniad

Ar ôl rhoi sylw i'r ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), ac am y rhesymau a amlinellir uchod, mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.

Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru

Sylwch nad yw'r wybodaeth isod yn berthnasol i rieni / gwarchodwyr ond mae wedi'i darparu er mwyn cyflawnedd.

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod Lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r tîm Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

Yn gywir,

Y Tîm Rhaglen Moderneiddio Ysgolion